Yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru
The Covenanted Churches in Wales

# CYLCHLYTHYR GWANWYN 2023

## CEFNDIR

Sefydlwyd y Comisiwn yn dilyn penderfyniad yr Eglwysi a'r Enwadau canlynol ym 1975 i 'geisio undeb gweledig' rhyngddynt: Eglwysi Cyfamodol y Bedyddwyr, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Yr Eglwys Fethodistaidd a'r Eglwys yng Nghymru. Am bron 50 mlynedd bellach, bu'r Comisiwn yn hyrwyddo trafodaethau am faterion megis gweinidogaeth a'r sacramentau, am ffyrdd o feithrin partneriaeth a chydweithio lleol ymhlith cynulleidfaoedd o draddodiadau gwahanol a chymell cynulleidfaoedd i addoli, gweddïo a gweithio gyda'i gilydd.

## SUL Y CYFAMOD

Fe'ch gwahoddwn i nodi Sul Cyfamod y Comisiwn sy'n disgyn eleni ar 11 Mehefin. Unwaith eto, mae partneriaid yn y Comisiwn wedi ysgrifennu gweddïau newydd i'w defnyddio ar y Sul hwnnw. Gadewch inni atgoffa'n hunain eto o alwad Crist am '…iddynt oll fod yn un, ie, fel yr wyt ti, O Dad, ynof fi a minnau ynot ti.' (Ioan 17 ad 21). Nid yw'n hawdd nac yn amlwg bob amser i rannu'n bywydau a'n gwaith â'n gilydd fel eglwysi ond gadewch i ni barhau i gydnabod ein galwad i'r weinidogaeth a'r undod a rannwn â'n gilydd.
Gellir lawr lwytho'r gweddïau drwy wefan y Comisiwn, sef, https://www.cytun.co.uk/hafan/comisiwn-yr-eglwysi-cyfamodol-yng-nghymru/ neu drwy'ch Eglwys neu'ch Enwad. Cânt eu dosbarthu hefyd gyda'r cylchlythyr hwn.

***Gweddi Eiriol a Diolch***

*Ar y Sul Cyfamod hwn, cofiwn addewidion y pump enwad Cristnogol yng Nghymru i gerdded gyda'i gilydd, ochr yn ochr â'n cyfeillion, i ddod o hyd i ffordd newydd i fod yn eglwys. Diolchwn am weledigaeth y rhai a deithiodd y ffordd hon o'n blaen, ac am y rhai sy'n teithio gyda ni o hyd. Amen.*

## HYFFORDDIANT ECWMENAIDD I ARWEINWYR EGLWYSI YNG NGHYMRU

Bwriada'r Comisiwn gyflwyno agwedd fwy cyfannol at helpu arweinwyr enwadol sy'n dod i weithio yng Nghymru i ddeall ein hanes, ein gwaith a'n hamcanion. Mae'n amlwg i ni fod nifer o arweinwyr yn cael eu galw i wasanaethu yng Nghymru nad oes ganddynt ddealltwriaeth benodol o'n hanes.
Ar hyn o bryd rydym yn ystyried pa fath o hyfforddiant y dylid ei gynnig ac i bwy. Eisoes cynigir y cwrs preswyl blynyddol *'Croeso i Gymru'* i bawb sy'n dod yn newydd i weithio yng Nghymru (gweler gwefan Cytûn) ond bwriedir yr hyfforddiant ychwanegol hwn yn benodol ar gyfer y sawl yn ein partner-eglwysi sydd angen gwybod mwy ac a fyddant yn gyson yn ymwneud â gweithgarwch a phrosiectau ecwmenaidd.

## RHANNU GWEINIDOGAETH

Yn ein cylchlythyr llynedd, fe gyflwynwyd ein hadroddiad sy'n cymell eglwysi i gydnabod y cytundebau sydd eisoes yn bodoli parthed rhannu gweinidogaeth yn ein hardaloedd. Gellir dod o hyd i'r adroddiad drwy wefan Cytûn (gweler uchod).
Rydym yn awr yn cynnal math ar ymgyrch gyhoeddus-rwydd i gadarnhau'r cytundebau hyn a sicrhau nad yw'r gwahaniaethau diwinyddol all fod rhyngom yn rhwystr i eglwysi fedru croesawu gweinidogion ordeiniedig o bartner enwadau eraill rannu â nhw, heb fod cwestiynau'n codi, yng ngweinidogaeth y gair a'r sacramentau.
Rydym yn ymwybodol o lawer enghraifft yng Nghymru lle mae'r math hwn o rannu'n digwydd eisoes, oherwydd prinder gweinidogion o wythnos i wythnos, pan mae eglwysi'n croesawu ei gilydd ac yn ymuno â'i gilydd, yn ôl y gofyn. Cymhellir eglwysi i ystyried yn weddigar sut mae ymwneud yn greadigol ag eraill o'u cwmpas, yn arbennig pan mae gweinidogaeth oddi fewn i'w henwad eu hunain naill ai'n rhy gostus neu ddim ar gael o gwbwl.

## Y COMISIWN YN CROESAWU PRIF WEITHREDWR NEWYDD CYTÛN



Rhown groeso cynnes i'r Parchg. Sion Brynach i'w swydd newydd fel Prif Weithredwr Cytûn, y bydd yn cychwyn arni ar 1af Ebrill. Bydd yn olynu'r Parchg Aled Edwards, sydd wedi cynnig arweiniad ysbrydoledig i Cytûn dros flynyddoedd lawer, tan ei ymddeoliad yn ddiweddar.
Daw Sion i Cytûn wedi nifer o flynyddoedd yn gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae hefyd yn offeiriad ordeiniedig gyda'r Eglwys yng Nghymru. Bydd llawer yn cofio'r cyfraniadau nodedig a wnaeth ei rieni, Esgob Saunders a Cynthia Davies, i fywyd ecwmenaidd Eglwysi Cymru dros nifer o flynyddoedd. Roeddem yn falch i nodi iddo dynnu sylw, yn ei gyfarchiad cyntaf, at *'heriau a pheryglon y llwytholiaeth newydd'* fel mater o bwys gwirioneddol yn ein cymdeithas heddiw. Dyma rywbeth y buom yn ymdrechu ag e' am rai blynyddoedd yn ein heglwysi! Edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio ag arweinyddiaeth Cytûn a gyda Sion ei hun.

Yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru
The Covenanted Churches in Wales

# SPRING NEWSLETTER 2023

**BACKGROUND**
The Commission was formed following the decision by the following Churches and Denominations in 1975 'to seek visible unity' together: The Covenanted Baptist churches, the Presbyterian Church of Wales, the United Reformed Church, the Methodist Church and the Church in Wales. For almost 50 years, the Commission has fostered discussions on issues such as ministry and sacraments, ways of encouraging local partnership and collaboration between congregations of different traditions and has provided resources for shared prayer and worship.

**COVENANT SUNDAY**
We invite you to mark the Commission 'Covenant Sunday' in 2023, which falls this year on June 11th. Once again Commission partners have written new prayers for you to use on that day. Let us remind ourselves again of our Lord's call '…that all of them may be one, Father, just as you are in me and I am in you'. (John 17 v 21). It might not always be easy or obvious to link our lives and work together as churches but let us continue to recognise our shared ministry and the unity together to which we are called.
The prayers can be downloaded through the Commission's website
https://www.cytun.co.uk/hafan/en/the-covenanted-churches-in-wales/
Or through your church or denomination. They will also be distributed with this Newsletter.

***A Prayer of Intercession and Thanksgiving:***
*On this Covenant Sunday, we remember the promises made by five denominations of Christians in Wales to walk together, alongside our friends, to find new ways of being church. We give thanks for the vision and foresight of those that have journeyed before us, and for those that are travelling with us still. Amen*

**ECUMENICAL TRAINING FOR CHURCH LEADERS IN WALES**
The Commission is looking to introduce a far more joined-up approach to introduce new denominational church leaders coming into Wales to our history, practice and objectives. It is obvious to us that many appointed denominational leaders are called to practice ecumenical work but have no specific understanding of our history in Wales.
We are currently considering what sort of training should be offered, and to whom. Cytûn already offers the yearly *'Welcome to* Wales' residential course for all new ministers arriving in Wales, (see the Cytûn website) but this additional training will be geared specifically for those of our partner denominations who need to know more, and will regularly be involved in ecumenical projects and practice.

**SHARED MINISTRY**
In our newsletter last year, we rolled out the report on the encouragement to many churches to recognise the agreements already in place on undertaking shared ministry in your locality. This report is available through Cytûn's website – see above,
We are now undertaking somewhat of a 'publicity drive' to affirm these agreements and ensure that what might be our remaining theological differences are not barriers to churches particularly welcoming ordained ministers from other denominational partners to share with them in the ministry of word and sacrament, without questions arising.
We are aware of a number of examples in Wales where there is already a simple sharing in this respect, and where there is a lack of available ministers week to week – that churches welcome one another and join together when they need to. Churches are indeed encouraged to prayerfully consider how they might creatively engage with others around them, particularly where ministry within their own denomination is either too costly or simply unavailable.

**THE COMMISSION WELCOMES NEW CYTÛN CHIEF EXECUTIVE**



We warmly welcome the Rev Sion Brynach to his new role as Cytûn Chief Executive, as he begins his work on 1st April 2023. He replaces the Rev Aled Edwards who has provided inspirational leadership to Cytûn for many years up until his recent retirement.
Rev Sion comes to Cytûn after a number of years working for the Arts Council of Wales and is also an ordained priest within the Church in Wales. Many will remember the contributions that Sion's parents, Bishop Saunders and Cynthia Davies, have made to the ecumenical life of the churches over many years. We were pleased to note that in his opening greeting, Rev Sion identifies *'the challenges and dangers of neo-tribalism'* as a real issue in our society today; something that to a certain extent we have wrestled with for many years in our churches(!).
We look forward to continuing our regular interaction and good links with the Cytûn leadership and working with Rev Sion.